PWYLLGOR CRAFFU PLANT A PHOBL IFANC

DYDD LLUN, 11 GORFFENNAF 2016

Present: County Councillor Richard Cook(Chairperson)
County Councillors Boyle, Chaundy, Murphy, Dianne Rees a/ac Lynda Thorne

10 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Gordon a Joyce.

11 : DATGAN BUDDIANNAU

Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau o'u cyfrifoldeb o dan Rhan 3 o God Ymarfer yr Aelodau. Datganodd y Cynghorydd Boyle ddiddordeb personol yn eitemau 3 a 5. Mae ei blentyn wedi derbyn help allgymorth gan Ysgol Meadowbank ac mae'n ymddiriedolwr yr Elusen Halcyon y cyfeiriwyd ati yn y cwestiwn a ofynnwyd. Datganodd Mrs Hayley Smith ddiddordeb personol yn eitemau 3 a 4 ar y sail ei bod yn gyflogai i Barnardo's a gomisiynir o fewn Teuluoedd yn Gyntaf.

12 : CYNIGION AR DREFNIADAETH YSGOLION – DARPARIAETH ARBENIGOL AR GYFER DISGYBLION CYNRADD GYDAG ANAWSTERAU LLEFERYDD AC IAITH AC ANAWSTERAU YMDDYGIADOL, EMOSIYNOL A CHYMDEITHASOL.

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Sarah Merry (Aelod Cabinet dros Addysg), Nick Batchelar (Cyfarwyddwr, Addysg a Dysgu Gydol Oes) a Jennie Hughes (Uwch Arweinydd Cyflawniad ar gyfer Cynhwysiant) i'r cyfarfod.

Gwnaeth y Cynghorydd Merry ddatganiad i'r Pwyllgor a dywedodd, er, fel canlyniad i'r ymgynghoriad cychwynnol y cynigwyd cau Ysgol Meadowbank, argymhellir bellach y dylid cynnal adolygiad arall o gymorth iaith a lleferydd yng Nghaerdydd gyda'r nod o ddod â chynnig diwygiedig ymlaen a sicrhau bod y caiff anghenion plant sydd ag anghenion iaith a lleferydd a leolir yn Meadowbank ac Allensbank eu hystyried.

Ychwanegodd y Cyfarwyddwr y cydnabyddir bod angen parhaus am ddarpariaeth arbenigol ar gyfer plant sydd â'r anghenion iaith a lleferydd mwyaf cymhleth ac y bydd yr angen parhaus hwnnw yn parhau yn flaenoriaeth p'un ai a yw'n seiliedig ar adnoddau neu mewn ysgol arbenigol. Cafodd y Pwyllgor gyfle i wneud sylwadau, ceisio eglurder neu godi cwestiynau ar y wybodaeth a dderbyniwyd. Ceir crynodebau o'r trafodaethau hynny fel a ganlyn:

- Gofynnodd yr Aelodau am yr ymgynghoriad cychwynnol gan gwestiynu pam ei fod yn ymddangos bod cyn lleied o'r materion wedi'u hadnabod ar y dechrau. Dywedodd y Swyddogion bod angen gwneud rhagor o waith i ddeall y materion a dod o hyd i'r ffordd orau ymlaen.

- Dywedodd y Swyddogion fod 3 elfen o waith i'w wneud: arfarniad o gymorth iaith a lleferydd yng Nghaerdydd; mwy o ymgysylltu gydag ysgolion ac

*This document is available in Welsh / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg*

ymgysylltiad rhanddeiliaid eraill â Chyrff Llywodraethu Ysgolion Meadowbank ac Allensbank er mwyn sicrhau y caiff anghenion plant sydd ag anawsterau iaith a lleferydd eu rheoli'n effeithiol yn y cyfamser.

- Dywedodd y Swyddogion nad oes unrhyw raddfa amser benodedig ar gyfer y gwaith hwn ar hyn o bryd.

- Dywedodd y Cyfarwyddwr fod gweithgor strategaethau AAA wedi'i sefydlu, yn y lle cyntaf mae'r grŵp yn cynnwys penaethiaid, fodd bynnag ceir cylch gorchwyl i ymgysylltu â rhanddeiliaid eraill.
  Y gobaith yw y caiff arfarniad cychwynnol o'r gwasanaeth iaith a lleferydd yn y prif ffrwd ei gwblhau erbyn y Nadolig.

- Pwysleisiodd y Swyddogion fod ymrwymiad i sicrhau y bodlonir anghenion plant sydd ag anawsterau iaith a lleferydd ac nad ydynt yn mynd yn NEET ac ni dderbynnir y byddai cysylltiad achosol rhwng cau Ysgol Meadowbank a cynnydd yn y rhai a aiff yn NEET.
  Mae tystiolaeth glir mai'r ffactor cryfaf yn y rhai sy'n mynd yn NEET yw ansawdd yr addysg.

- Holodd yr Aelodau am leoliadau y tu allan i'r sir ar gyfer y rhai sy'n elwa ar gymorth arbenigol a chost sylweddol hynny, a pham na ddarperir ar gyfer eu hanghenion yn lleol.

  Roedd 12 o blant ysgol gynradd yn elwa ar y cymorth arbennig hwnnw yn rhywle arall ar yr adeg hon. Dywedodd y Swyddogion na chaiff y plant hynny eu lleoli y tu allan i'r sir oherwydd darpariaeth annigonol yn y sir. Mae 6 ohonynt yn derbyn gofal, wedi'u lleoli mewn gofal maeth y tu allan i Gaerdydd mewn ysgolion a gynhelir mewn Awdurdodau Lleol eraill. Cafodd 6 ohonynt eu lleoli oherwydd tribiwnlys neu gyngor cyfreithiol. Gall yr Awdurdod ddarparu am eu holl anghenion.

- Nid oedd y Swyddogion yn derbyn y cafodd rhieni eu cyfeirio i ffwrdd o Ysgol Meadowbank, gan ddweud, pan gaiff datganiad o anghenion addysgol arbennig ei gyflwyno, darperir rhestr lawn i'r rhieni o ysgolion sy'n cynnwys ysgolion arbennig a safleoedd adnoddau arbenigol.
  Gofynnir i'r rhieni nodi eu hysgol ddewisol.

- Ailadroddodd yr Aelodau eu cred fod lle i ysgolion arbenigol, er gwaethaf y ffaith ei fod yn ymddangos bod pob awdurdod lleol yn symud tuag at ddarpariaeth arbenigol yn y prif ffrwd.
  Ceir pryderon y byddai plant a phobl ifanc yn ei chael hi'n anodd cyfathrebu a fyddai'n arwain atynt yn teimlo'n ynysig mewn ysgol prif ffrwd. Cytunodd y Swyddogion fod galw am leoedd mewn ysgolion arbennig ond gwnaethant fynegi'r barn nad yw hyn yn briodol ar gyfer angen penodol lle nad oes anabledd dysgu.

- Codwyd pryder gan yr Aelodau ynglŷn â'r sefyllfa y mae Ysgol Meadowbank ynddi, sef bod niferoedd disgyblion yn lleihau ac mae'n debygol o gymryd 9-12 mis arall cyn y gwneir unrhyw benderfyniadau.

Dywedodd y Swyddogion y caiff yr anawsterau a wynebir ar hyn o bryd eu gwaethygu gan yr oedi; bydd ansicrwydd ond mae'r Swyddogion yn gweithio gyda'r ysgol i'w chefnogi i symud ymlaen a gwnaethant y sylw fod angen gwerthfawrogi arbenigedd yn yr ysgol, yn hytrach na'i golli.

- Hysbyswyd yr Aelodau y caiff therapi iaith a lleferydd ei ddarparu i'r holl blant p'un ai a ydynt mewn safle adnoddau arbenigol neu'n derbyn cymorth prif ffrwd.
  Dros y 5 mlynedd diwethaf, bu perthynas gydweithredol gyda'r gwasanaeth therapi ac mae cefnogaeth prif ffrwd y gryf.

PENDERFYNWYD: Bod y Cadeirydd yn ysgrifennu ar ran y Pwyllgor at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu eu sylwadau a'u harsylwadau.

## 13 : ADRODDIAD RHAGLEN WAITH 2016/2017

Cyflwynodd Martyn Hutchings (Prif Swyddog Craffu) yr adroddiad a'r rhaglen waith ddrafft ar gyfer y flwyddyn fwrdeistrefol 2016-17.

CYTUNWYD: Nodi'r materion i'w hystyried ar gyfer rhaglen waith y Pwyllgor ar gyfer 2016-17 er mwyn galluogi i fersiwn derfynol gael ei pharatoi i'w cymeradwyo yng nghyfarfod mis Medi.

## 14 : RHOI DEDDF GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A LLESIANT (CYMRU) 2014 AR WAITH

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Sue Lent (Aelod Cabinet, Blynyddoedd Cynnar, Plant a Theuluoedd a'r Dirprwy Arweinydd), Tony Young (Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol), Cheryl Chapman (Rheolwr Gweithredol Ymyrraeth Gynnar) ac Angela Bourge (Rheolwr Gweithredol Adnoddau) i'r cyfarfod.

Roedd yr adroddiad yn cynnig diweddariad ar y cynnydd a wneir i sicrhau bod y Cyngor yn barod i weithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ynghylch Gwasanaethau Atal.

Ystyriodd y Pwyllgor y cyflwyniad ysgrifenedig a chawsant eu gwahodd i wneud sylwadau, ceisio eglurder neu godi cwestiynau ar y wybodaeth a dderbyniwyd. Ceir crynodebau o'r trafodaethau hynny isod:

- Holodd yr Aelodau a oedd unrhyw ddata ar gael sy'n dangos defnydd cyfeiriadur gwasanaethau Dewis Cymru ac a yw'r gwasanaeth yn cael ei ddefnyddio gan y cyhoedd neu gan sefydliadau neu beidio.
  Dywedodd y Swyddogion y gallai'r wybodaeth gael ei darparu maes o law.

- Gofynnwyd i'r aelodau am y meini prawf cymhwyster newydd ar gyfer anghenion unigol a dywedwyd wrthynt, yn y dyfodol bydd ymagwedd fwy hyblyg; caiff ystod o wasanaethau a gynigir eu hystyried, yn hytrach na chynllun gofal a chymorth penodol.

- Gofynnwyd i'r Swyddogion a yw'r Ddeddf yn rhoi cyfle i'r awdurdod gomisiynu gwasanaethau a chyfraddau gostyngedig a dywedwyd nad oes unrhyw beth i atal hynny, er y byddai'n rhaid bod ag achos busnes ar ei gyfer.
  Ffocws y Ddeddf yw symud o ddarpariaeth i ataliaeth er mwyn annog gwasanaethau i ymestyn y ffiniau.  Mae ynglŷn â chyd-gynhyrchu gwasanaethau.

- Holodd yr Aelodau am y dystiolaeth y mae lleihad yn nifer y Plant sy'n derbyn Gofal yn seiliedig arni a dywedwyd wrthynt ei fod yn rhagweld y bydd 5% o ostyngiad yn y ffigwr, er ar hyn o bryd mae'r ffigwr yn uwch nag erioed o'r blaen.

- Mynegodd y Pwyllgor bryder am ddyfodol Teuluoedd yn Gyntaf pan fydd y cyllid yn dod i ben a dywedwyd wrthynt bod yr awdurdod eisoes wedi dechrau deialog gyda'r darparwyr arweiniol.
  Mae Llywodraeth Cymru eisiau alinio mentra gwrth-dlodi, er enghraifft Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg, er eu bod yn aros am gadarnhad gan y Prif Weinidog o hyd.

- Dywedodd y Swyddogion na ellir dechrau'r broses ail-gomisiynu eto.
  Bydd y cyllid presennol yn dod i ben fis Mawrth 2017, fodd bynnag mae darpariaeth i'w ymestyn 2 flynedd ond mae rhai risgiau ariannol wrth ymestyn contractau.

- Dywedwyd wrth yr Aelodau bod unrhyw danwariant o gyllid Teuluoedd yn Gyntaf wedi'i ddychwelyd o'r blaen i Lywodraeth Cymru.
  Mynegodd yr Aelodau bryder nad oeddent wedi cael gwybod am y tanwariant a holi am y rheswm dros ei ddychwelyd.

- Holodd yr Aelodau a oedd y protocolau rhannu gwybodaeth yn gweithredu'n llwyddiannus ac er cael gwybod bod rhannu gwybodaeth yn fater cymhleth, yn sicr gyda lansiad MASH, a leolir yng Ngorsaf Heddlu Bae Caerdydd, mae rhannu gwybodaeth ar y lefel sylfaenol yn gweithio a hefyd mae'r protocolau yn gweithio.
  Mae'n cael ei yrru ymlaen gan Reolwr y Project. Yn ogystal, mae'r MHub yn cysylltu amrywiaeth o gronfeydd data.

- Gofynnodd yr Aelodau a fydd ymagwedd Llwybr Cymorth Cynnar yn darparu pwynt cysylltiad unigol.
  Dywedodd y Swyddogion ei fod yn dibynnu ar asiantaethau yn gweithio gyda'i gilydd a gall gefnogi gweithwyr proffesiynol eraill, er enghraifft cynnig cyngor ac arweiniad i athro sy'n mynegi pryder am blentyn neu berson ifanc yn yr ysgol.

- Dywedwyd wrth yr Aelodau y defnyddir offeryn y Fframwaith Cyd-asesu Teuluoedd (JAFF) i helpu i adnabod teuluoedd sydd angen cymorth cynnar. Gall hyd yn oed ymgysylltu â'r asesiad helpu'r teulu i oresgyn yr anhawster.

- Croesawodd yr Aelodau y Llwybr Cynllunio ac Asesu ar gyfer Cymorth Cynnar, ond roeddent yn teimlo fod angen i rywfaint o'r geiriad fod yn gliriach ac yn fwy manwl gywir, er enghraifft dylai 'dylai rhywun weithredu fel y gweithiwr arweiniol sefydlu'n gliriach beth sydd angen ei wneud a chan bwy.

- Roedd y Pwyllgor yn awyddus i wybod beth oedd y sefyllfa mewn perthynas â gofalwyr ifanc a dywedwyd wrthynt y bu strategaeth ar gyfer gofalwyr ifanc yn hanesyddol, fodd bynnag, bellach mae'r Strategaeth Cymorth Cynnar yn cynnwys gofalwyr ifanc.
  Bydd JAFF yn helpu adnabod gofalwyr ifanc.
  Nid yw gofalwyr ifanc bob amser eisiau angen cymorth Gweithiwr Cymdeithasol.

15 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Bydd cyfarfod nesaf y Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc ar ddydd Mawrth 27 Medi 2016 am 4.30 pm.

***This document is available in Welsh / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg***